Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 25 Tachwedd 2022** am 9.00am yng ngwesty Rossett Hall, Ffordd Caer, Wrecsam.

**Presennol**
Jim Barclay
Paul Barlow
Richard Campbell
Yr Athro Martin Chambers
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Lauren Hole
Claire Homard
Yr Athro Sandra Jowett
Sally Lambah
Diane McCarthy
Paul McGrady
Judy Owen
David Sprake
David Subacchi
Maureen Wain
Liam Wynne

**Swyddogion:**
Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Yr Athro Richard Day *(PVC Research)*
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*

**Ymddiheuriadau:**
Yr Athro Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Richard Thomas
Amy Rowley

| | | |
|---|---|---|
| **22.23** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Datganiad y Polisi Tâl Blynyddol 2021/22.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cyhoeddi Datganiad y Polisi Tâl Blynyddol 2021/22. | |
| **22.24** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **22.25** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau yng nghyswllt eitemau ar yr agenda. | |
| **22.26** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Argymhellion i benodi Diane McCarthy yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraeth a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Enwebwyd ac etholwyd Dr Karen Heald fel y llywodraethwyr yn cynrychioli'r staff addysgu ar y Bwrdd Academaidd. Roedd aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodarethu wedi ystyried, ac yn fodlon gyda'r adroddiad am y broses enwebu ac ethol ac wedi nodi CV Dr Heald. Byddai Dr Heald yn dechrau ei chyfnod yn y swydd ar 1 Rhagfyr 2022 a bydd yn derbyn arweiniad a gwybodaeth gynefino priodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO penodi Diane McCarthy yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn weithredol ar unwaith.<br><br>NODI Llywodraethwr enwebedig y Bwrdd Academaidd.<br><br>CYTUNO i ystyried argymhelliad ynghylch aelod cyfetholedig i'r Pwyllgor Archwilio a Risg drwy gylchrediad maes o law. | |
| **22.27** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod. | |
| **22.28** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.29** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad Effaith 2021/22 yr Undeb Myfyrwyr.<br>(ii) Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr – Tachwedd 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cydnabu a diolchodd y Cadeirydd i'r Undeb Myfyrwyr am eu cyfraniad i'r seremonïau graddio diweddar.<br><br>Yn deillio o'r adroddiadau a gyflwynwyd, bu'r Bwrdd yn ystyried effaith costau byw cynyddol ar fyfyrwyr a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y Brifysgol. Roedd yr Undeb Myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r trafodaethau cydweithredol ar y mater hwn, gan nodi ei bod yn debygol y byddai mwy o effaith ar fyfyrwyr wrth ddynesu at ddiwedd y tymor cyntaf. Roedd ymgyrch 'help yourshelf' yr Undeb Myfyrwyr yn mynd yn dda, ac roeddynt yn ystyried cynnig dewisiadau brecwast pris isel ym Mar Glyn. Mewn partneriaeth â'r Undeb Myfyrwyr mae'r Brifysgol yn dod â holl agweddau'r cymorth costau byw sydd ar gael at ei gilydd mewn un lle ac anfonwyd y cynlluniau hyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar eu cais. Roedd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi cymeradwyo cronfa galedi ddiwygiedig i fyfyrwyr, ac amlinellwyd y meini prawf cyffredinol.<br><br>Gofynnodd y Bwrdd am fanylion ymgyrch 'help yourshelf' yr Undeb Myfyrwyr i'w galluogi i gyfrannu os oedd yn bosibl.<br><br>Roedd y swyddi gwag ar y Cyngor Myfyrwyr wedi'u llenwi bellach ac roedd hyfforddiant yn mynd rhagddo.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI Adroddiad Effaith 2021/22 yr Undeb Myfyrwyr. | **LH** |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr – Tachwedd 2022. | |
| **22.30** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad yr Is-Ganghellor.<br>(ii) Ymateb yr Is-Ganghllor i Adroddiad Effaith 2021/22 yr Undeb Myfyrwyr.<br>(iii) Nodiadau o'r Diwrnod Strategaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**22.30.02 Adroddiad Effaith 2021/22 yr Undeb Myfyrwyr**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ei ymateb i'r adroddiad effaith blynyddol gan nodi mai ailgreu'r ymgysylltu ar y campws oedd y thema allweddol trwy'r adroddiad. Gallai tîm marchnata'r Brifysgol gynorthwyo gydag annog mwy o ymwneud yn yr etholiadau myfyrwyr y flwyddyn nesaf.<br><br>**22.30.02 Diweddariad yr Is-Ganghellor**<br>Adroddodd yr Is-Ganghellor bod Pwyllgor Cynghorol Pwerau Dyfarnu Graddau yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi cyfarfod a bod cais y Brifysgol yn bwrw ymlaen i'r cam nesaf. Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi cysylltu i ofyn am wybodaeth ychwanegol. Byddai cyfarfod gyda'r Is-Ganghellor, PVC Research a chydweithwyr o'r Swyddfa Ymchwil yn cael ei gynnal gyda'r Asiantaeth ym mis Ionawr a phanel adolygu allanol yn cael ei benodi. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu maes o law.<br><br>Roedd yr Awdurdod Lleol a'r Brifysgol wedi'u gwahodd i fod yn aelodau'r Rhwydwaith Arloesi Dinasoedd Allweddol, gweithgor traws-seneddol, ac roedd ail gyfarfod i'w gynnal yng Nghaerfaddon ar 30 Tachwedd.<br><br>Rhagwelwyd y byddai cyhoeddiad ynghylch llwyddiant cais Wrecsam i'r Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei wneud ar 30 Tachwedd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad yr Is-Ganghellor.<br><br>NODI ymateb yr Is-Ganghellor i Adroddiad Effaith 2021/22 yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>NODI'R nodiadau o'r Diwrnod Strategaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022. | |
| **22.31** | **Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad Blynyddol Drafft a Datganiadau Ariannol Grŵp y Brifysgol 2021/22.<br>(ii) Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yr Is-gwmnïau 2021/22.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2021/22.<br>(iv) Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**22.31.01 Grŵp y Brifysgol**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid adroddiad blynyddol 2021/22 a'r datganiadau ariannol archwiliedig a thynnodd sylw at y nodweddion allweddol. Roedd y trosiant wedi cynyddu i £47.2m gyda chyfanswm yr incwm cynhwysfawr o £30.4m wedi'i ddylanwadu gan yr enillion actiwaraidd ar bensiynau, sef £25.5m. Cafwyd gwarged gweithredol net o £4.8m ar ôl cyflwyno'r addasiadau pensiwn nad ydynt yn rhai arian parod. | |

Roedd y cronfeydd arian wrth gefn yn £18m, yn bennaf ar sail derbynion o werthu asedau sefydlog a chynhyrchu arian parod o weithgareddau gweithredol ar ôl ad-dalu'r holl fenthyciadau yn ystod y flwyddyn.

Roedd y prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol yn perfformio'n dda er bod costau staffio yn cynyddu ac angen eu rheoli.

Roedd yr archwilwyr wedi gofyn am amhariad y ddyled i'r Brifysgol gan Glyndŵr Innovations Ltd gan ei bod yn annhebygol y byddai'n cael ei ad-dalu. Cafodd hyn effaith net nil ar waelodlin Grŵp y Brifysgol ond nid yw'n effeithio ar sefyllfa'r Brifysgol.

Cadarnhawyd y byddai enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA), sy'n canolbwyntio ar yr arian parod sy'n llifo i mewn i'r Brifysgol, yn cael ei adrodd fel Dangosydd Perfformiad Allweddol ariannol o 2022/23 ymlaen. Byddai esboniad y metric yn cael ei gyflwyno i'r llywodraethwyr yn y cyfarfod nesaf er budd yr aelodau hynny nad ydynt yn gyfarwydd ag ef.

**DE**

**22.31.02 Yr Is-gwmnïau**
Cyflwynwyd crynodeb o ganlyniadau'r is-gwmïau. Gwnaeth Glyndŵr Innovations Ltd (GIL) golled o £152k a gwnaeth Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndŵr Services Ltd wargedau bach. Cadarnhaodd y Brifysgol ei bod yn parhau i gefnogi'r is-gwmnïau i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu ar sail busnes gweithredol.

Atgoffwyd yr aelodau bod GIL yn cynnwys gwaith y Grŵp System Optegol Manwl Gywir yn unig erbyn hyn. Roedd Bwrdd GIL yn canolbwyntio ar broffidioldeb a rhagfynegi cywirach gyda'r nod o'r cwmni yn cyrraedd sefyllfa adennill costau o leiaf. Byddai'r Pwylgor Strategaeth a Chyllid yn parhau i gadw llygad ar berfformiad GIL.

**22.31.03 Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Archwilio a Risg**
Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y Pwyllgor yn fodlon ynghylch paratoi'r datganiadau ariannol a thynnodd sylw ei bod yn ofynnol i'r archwilwyr allanol gynnal symiau cynyddol o waith a phrofion ychwanegol i fodloni'r safonau archwilio. Roedd y Brifysgol wedi'i gwarchod rhag costau ychwanegol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r gwaith ychwanegol hwn eleni, ond byddai'r Brifysgol yn gweld cynnydd yng nghostau archwilio allanol flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor, gan dynnu sylw at waith y Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Nodwyd adroddiad blynyddol yr Archwiliwr Mewnol a'i farn am y rheolaethau mewnol. Esboniwyd cefndir y 'sicrwydd rhannol' yn deillio o'r archwiliad mewnol ar seiber ddiogelwch a byddai'r Pwyllgor yn monitro seiber ddiogelwch drwy gydol y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad ar werth am arian a ystyriwyd gan y Pwyllgor i hysbysu'r Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd wedi bod yn fanwl ac fe'i ystyriwyd yn ddogfen ddefnyddiol i'w dosbarthu i'r Bwrdd ehangach ac i'w rhannu yn ystod cyfnod cynefino llywodraethwyr newydd.

**VB**

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am gael gwell dealltwriaeth o lle mae'r Pwyllgor a'i waith yn eistedd yng nghyswllt y Brifysgol gyfan, yn cynnwys yng nghyswllt llwydoraethu academaidd, yn y cyfarfod nesaf.

Argymhellodd Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol i'w cymeradwyo a chofnodwyd eu diolchiadau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Tîm Cyllid.

**Penderfynwyd:**
CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Grŵp y Brifysgol 2021/22.

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNO i'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr sylwadau i'r Archwilwyr Allanol.<br><br>NODI Adroddiad Blynyddol y Pwyllgo Archwilio 2021/22.<br><br>NODI Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2021/22.<br><br>NODI Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Ariannol is-gwmnïau'r Brifysgol. | |
| **22.32** | **Yr Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad yn nodi'r dystiolaeth sail i ganiatáu cwblhau'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol gan y Bwrdd.<br>(ii) Cyngor am yr elfennau i'w hystyried i fod yn fusnes gweithredol.<br>(i) Y papur rhagfynegi arian parod a rannwyd gyda chwmni KPMG i gefnogi bod y Brifysgol yn fusnes gweithredol sy'n medru gweithredu felly dan amodau gweithio arferol am y dyfodol rhagweladwy.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Pwyllgor am gefndir cyflwyno'r adroddiad. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd am gynaliadwyedd y Brifysgol yn y dyfodol a bod y cyfrifiadau enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA) a Ffin Cynaliadwyedd a Buddsoddi yn defnyddio methodoleg wedi'i rhagnodi. Tynnwyd sylw at gamgymeriad yn y Dangosydd Perfformiad Allweddol ynghylch cynhyrchu arian parod a ddylai nodi £2,113,000 ond nid oedd unrhyw newid i'r Ffin Cynaliadwydd a Buddsoddi ar gyfartaledd dros 6 mlynedd fel canran o'r trosiant wedi'i addasu, a oedd yr un fath a'r blynyddoedd blaenorol yn fras.<br><br>Roedd y rhagfynegiad arian parod dwy flynedd a ddarparwyd i'r Archwilwyr i gefnogi'r dystiolaeth busnes gweithredol yn cynnwys amrediad o senarios potensial, yn cynnwys y senario achos gwaethaf o leihad 20% yn yr incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr cartref a thramor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYTUNO bod y Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy yn y dyfodol rhagweladwy a CHYMERADWYO dirprwyo hawl i'r Cadeirydd lofnodi'r Datganiad Cynaliadwyedd ar ran y Bwrdd i'w gyflwyno i CCAUC. | |
| **22.33** | **Rhagfynegiad Sefyllfa Alldro Chwarter 1 2022/23** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Rhagfynediad Sefyllfa Alldro Chwarter 1 2022/23.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a oedd yn meintioli effaith y Brifysgol ddim yn llwyddo i gyrraedd y targedau nifer y myfyrwyr yn 2022/23. Byddai incwm o ffynonellau eraill yn mynd yn erbyn y gostyngiad yn yr incwm ffioedd dysgu i ryw raddau. Roedd yn debygol y byddai diffyg gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn, ond byddai elw o waredu safle Ffordd y Deon yn rhoi sefyllfa gwarged net. Tynnwyd sylw at ystod o gamau gweithredu lliniaru ac arbedion. Byddai'n rhaid i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn o wargedau'r flwyddyn flaenorol i fuddsoddi yn y meysydd cywir, gyda derbynion cyfalaf wedi'u clustnodi ar gyfer datblygu'r campws.<br><br>Gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn sefyllfa ddiweddaraf GIL yn rhagfynegiad sefyllfa alldro'r cwmni, a fyddai'n cael effaith cadarnhaol ar sefyllfa Grŵp y Brifysgol.<br><br>Roedd adolygu'r portffolio yn parhau ac roedd gwaith dadansoddi'r incwm a'r gwariant i benderfynu ar 'broffidioldeb' rhaglenni yn digwydd. Roedd peth gwaith ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | 'broffidioldeb' cymharol rhaglenni wedi'i gwblhau eisoes. Nid oes dyraniad gorbenion diffiniedig i raglenni unigol, ond roedd yr ymarfer yn galluogi gwneud cymhariaeth rhwng rhaglenni ac yn ysgogi rhagor o gwestiynau am ddichonoldeb rhaglenni.<br><br>Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi gofyn am ailgreu'r rhagfynegiadau am y ddwy flynedd nesaf erbyn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2023 a byddai effaith y camau lliniaru yn cael eu tracio trwy gydol y flwyddyn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **DE** |
| **22.34** | **Partneriaethau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad y trafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu ynghylch partneriaethau academaidd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at rôl y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu. Mae'r Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am gynnal trosolwg o ansawdd a safonau'r holl ddarpariaeth ac roedd wedi cryfhau ei gylch gwaith i gydnabod y newid yn natur y ddarpariaeth academaidd.<br><br>Eglurwyd bod tri darpar bartner yn mynd trwy'r broses diwydrwydd dyladwy ar hyn o bryd a bod y gwarged a ragfynegwyd yn net o'r costau, yn cynnwys ffioedd asiantau recriwtio. Byddai cyfanswm nifer y myfyrwyr yn deillio o drefniadau gyda'r partneriaid potensial oddeutu 500 i 600. Roedd un partner yn meddu ar y potensial i ddechrau recriwtio yn 2022/23 gyda'r rhai'n weddill yn debygol o ddod yn weithredol yn 2022/24.<br><br>Gofynnwyd i'r aelodau roi adborth i'r Clerc am fformat a chynnwys adroddiadau ar faterion partneriaeth yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.35** | **Ansawdd a Safonau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Nodiadau cyfarfodydd y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau a gynhaliwyd ar 7 a 27 Hydref a 17 Tachwedd 2022.<br>(ii) Adroddiad ac argymhellion y Panel ynghylch cadarnhau'r datganiadau sicrwydd ansawdd a safonau blynyddol i CCAUC.<br>(iii) Adroddiad annibynnol Adolygiad Uniondeb Academaidd ac ymateb cychwynnol y sefydliad i'r argymhellion yn yr adroddiad.<br>(iv) Cylch gwaith wedi'i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu ar Ansawdd a Safonau.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyfeiriwyd yr aelodau at adroddiadau gan y Bwrdd Academaidd yn ddiweddarach ar yr agenda, a oedd yn cynnwys nifer o ddogfennau i'w hystyried wrth ddod i gasgliad ar yr ymateb i'r datganiadau sicrwydd, a adolygwyd gan y Panel Craffu ym mis Hydref. Roedd y Panel Craffu wedi ymgysylltu ag uwch staff â chyfrifoldeb am ansawdd a safonau, yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor, y Deon Cyswllt Materion Academaidd, PVC Partnerships, y Rheolwr Partneriaethau a'r Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio.<br><br>Cyflwynodd Cadeirydd y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau'r adroddiad a thynnodd sylw at y broses a ddilynwyd i adolygu'r dystiolaeth yn y dogfennau a gyflwynwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan nodi bod y datganiadau sicrwydd ansawdd a safonau'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth academaidd, lle bynnag y'i cyflwynir, roedd y Panel wedi cyfarfod deirgwaith eleni. Yn gyntaf cyfarfu'r panel i ystyried ansawdd a safonau'r ddarpariaeth gan bartneriaid yn benodol. Yn ail cyfarfu i ystyried ansawdd a safonau'r holl ddarpariaeth i ateb y chwech datganiad ansawdd a safonau gan CCAUC. Ac yn olaf i ystyried y datganiad terfynol am drosolwg effeithiol achosion uniondeb academaidd ochr yn ochr â'r adroddiad annibynnol Adolygiad Uniondeb Academaidd ac ymateb y sefydliad i'r argymhellion ynddo.<br><br>Myfyriodd y Bwrdd ar bob un o'r datganiadau sicrwydd ac ansawdd ac argymhellion y Panel Craffu. CADARNHAODD yr aelodau'r ymateb i ddatganiadau 1 i 5.<br><br>Ystyriodd yr aelodau adroddiad yr Adolygiad Uniondeb Academaidd annibynnol yng nghyswllt y chweched datganiad. Roedd yr adroddiad yn codi nifer o faterion arwyddocaol ac roedd y tîm arweinyddiaeth wedi darparu ymateb cychwynnol i argymhellion yr adroddiad.<br><br>Trafododd yr aelodau'r materion a godwyd ac ymateb manwl y sefydliad i bob argymhelliad. Roedd yr ymatebion yn cynnwys adborth gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a'r Bwrdd Academaidd ac yn amlinellu'r hyn a oedd eisoes yn bodoli a'r gwaith ychwanegol a fyddai'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion yn llwyr. Mewn ymateb i gwestiwn am y risg o faterion eraill yn effeithio ar fyfyrwyr rhyngwladol tra roedd pwyslais yn cael ei roi ar y materion a godwyd yn adroddiad yr Adolygiad, nodwyd y cymorth ychwanegol a gynigiwyd i fyfyrwyr rhyngwladol ar unwaith. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau uniondeb academaidd ychwanegol i'r myfyrwyr, cyswllt agosach â'r Undeb Myfyrwyr a chynyddu'r adnoddau a datblygiad uniondeb academaidd i'r staff. Roedd monitro agosach yr ymgysylltu â myfyrwyr ar y rhaglenni a effeithiwyd yn digwydd hefyd.<br><br>Roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi ymdrin â nifer uchel o apeliadau academaidd yn deillio o'r sefyllfa. Roedd yr Undeb Myfyrwyr yn croesawu'r dull partneriaeth o ddatrys y materion a godwyd ar y cyd â'r Brifysgol, ond wedi canfod fod sgiliau Saesneg cyfyngedig nifer o'r myfyrwyr dan sylw yn rwystr i gynnig cyngor effeithiol. Roedd y Brifysgol yn adolygu'r meini prawf sgiliau Saesneg a ddefnyddir, ac yn asesu Saesneg fel iaith ychwanegol gan ddefnyddio ei ddull asesu ei hun a bydd yn ystyried datblygu'r metrics ymhellach yng nghyswllt perfformiad academaidd myfyrwyr.<br><br>Tynnwyd sylw at swyddogaeth y Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol. Roedd y Pwyllgor hwn yn gyfrwng allweddol i sicrhau goruchwylio'r Strategaeth Ryngwladol, cryfhau'r cyfathrebu ac ymgysylltu ffurfiol gyda staff ynghylch y Strategaeth, prif ffrydio'r gweithgareddau rhyngwladol a sicrhau cyfathrebu ddwy ffordd rhwng y Swyddfa Ryngwladol a rhannau eraill y Brifysgol.<br><br>Byddai cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu cyn y Nadolig gyda chyfrifoldebau ac amserlen glir. Byddai hefyd yn edrych i'r dyfodol i sicrhau bod y twf yn y ddarpariaeth ryngwladol yn gynaliadwy. Dywedodd yr aelodau bod angen i'r cynllun gweithredu fod yn gadarn i gydnabod graddfa'r materion a godwyd a chynnwys materion ariannol a gweithrediadol traws-sefydliadol yn ymwneud â rheoli'r gweithgarwch rhyngwladol. Byddai'r cynllun gweithredu dan berchnogaeth y Bwrdd Academaidd a byddai'r Bwrdd Llywodraethwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd trwy fecanwaith adrodd y Bwrdd Academaidd yn ogystal â thrwy'r Panel Craffu yn ymgymryd â rôl arbennig fel mecanwaith goruchwylio llywodraethu ychwanegol.<br><br>Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod tystiolaeth briodol a chadarn i alluogi'r Bwrdd i gadarnhau'r datganiadau sicrwydd ansawdd a safonau 2021/22 i CCAUC. Hefyd cydnabu'r Bwrdd bod archwilio'r adroddiad annibynnol Adolygiad Uniondeb | |

| | | |
|---|---|---|
| | Academaidd gan y Panel Craffu a'r Bwrdd yn dangos bod gan y Bwrdd drosolwg priodol o'r mater a CHYTUNWYD y byddai monitro trylwyr y cynllun gweithredu yn deillio o'r Adroddiad yn digwydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r dogfennau cefnogol.<br><br>NODI'R adroddiadau a gyflwynwyd gan y Bwrdd Academaidd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd.<br><br>CADARNHAU Cylch gwaith wedi'i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu ar Ansawdd a Safonau.<br><br>CYMERADWYO cadarnhau'r chwech datganiad sicrwydd ansawdd a safonau i CCAUC ym mis Rhagfyr 2022 ac i Gadeirydd y Bwrdd lofnodi'r ddogfen sicrwydd. | |
| **22.36** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad Campws 2025.<br>(ii) Cynllun Meistr wedi'i ddiweddaru ac amserlen ddangosol datblygiadau'r campws.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol Ystadau 2021/22 (a ddosbarthwyd).<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad a chynigiodd gymeradwyo caffael Plot 80 ar y datblygiad Edwards Homes i'w ddefnyddio gan ystod o feysydd rhaglen i ddarparu 'amgylchedd byw go iawn.'<br><br>Cafwyd adborth bod yr Adroddiad Blynyddol Ystadau wedi'i gyflwyno'n glir.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>NODI'R Cynllun Meistr wedi'i ddiweddaru a'r amserlen ddangosol.<br><br>CYMERADWYO caffael Plot 80 gan Edwards Homes er mwyn cwblhau'r pryniant yn derfynol. | |
| **22.37** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys: bod yn bresennol yn y chwech seremoni raddio, adborth o gyfarfod llawn y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol yn ystod 14 i 16 Tachwedd, a chyfarfodydd gyda'r Is-Ganghellor gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chadeiydd a Phrif Weithredwr Coleg Cambria.<br><br>Roedd y Cadeirydd hefyd yn parhau ag ail rownd ei gyfarfodydd unigol gyda llwydoraethwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.38** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2022.<br>(ii) Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2021/22.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol Trosolwg Safonau 2021/22. | |

| | | |
|---|---|---|
| | (iv) Adolygiad Prentisiaethau Gradd yng Nghymru yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch – diweddariad y cynllun gweithredu.<br>(v) Cofrestr ac adroddiad statws Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol Hydref 2022.<br>(vi) Strategaeth Cefnogi Dysg Myfyrwyr – diweddariad metrics 2021/22.<br>(vii) Y Strategaeth Cefnogi Dysg Myfyrwyr 2020-2025 a chynllun gweithredu 2022/23.<br>(viii) Adroddiad Blynyddol y trosolwg Cylch Adolygu Monitro 2020/21.<br>(ix) Fframwaith Cyfoethogi Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.<br>(x) Adroddiad trosolwg yr Arolygwyr Allanol 2021/22.<br>(xi) Adroddiad Blynyddol ar weithdrefnau myfyrwyr 2021/22.<br>(xii) Adroddiad trosolwg Dilysu Rhaglenni (darpariaeth cartref) 2021/22.<br>(xiii) Adroddiad trosolwg Dilysu Rhaglenni (darpariaeth partneriaid) 2021/22.<br>(xiv) Canlyniadau graddau 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at y dogfennau cefnogol y gofynnwyd i'r aelodau eu hystyried fel rhan o'r adroddiad gan y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau.<br><br>Roedd yr Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil yn nodi na fu unrhyw achosion o gamymddygiad ymchwil yn 2021/22 yng nghyswllt staff na myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Serch hynny, cafwyd 10 achos o honiadau camymddygiad ymchwil ar sail diffiniad Camymddygiad Ymchwil y Brifysgol yn ymwneud â myfyrwyr a addysgwyd. Dim ond camymddygiad ymchwil yng nghyswllt staff neu fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yr adroddwyd arno yn y blynyddoedd blaenorol. Ymchwiliwyd i'r honiadau camymddygiad ymchwil yn achos myfyrwyr israddedig dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd a chadarnhawyd 9 o'r 10 achos. Roedd yr achosion yn ymwneud â myfyrwyr israddedig blwyddyn derfynol yn cyflawni eu prosiect blwyddyn derfynol a byddai'r myfyrwyr y cadarnhawyd eu hachosion wedi methu yn eu hasesiad. Byddai'r cyfle i ailsefyll asesiad aflwyddiannus yn dibynnu ar ddifrifoldeb y camymddygiad a'r rheoliadau perthnasol.<br><br>**Penderfynwyd**<br>NODI'R adroddiad a'r cofnodion.<br><br>NODI'R adroddiadau'n ymwneud ag ansawdd a safonau.<br><br>CYMERADWYO cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2021-22. | |
| **22.39** | **Adroddiad am y Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb y risigau corfforaethol a'r Map Gwres Risgiau, Tachwedd 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr sylw at y newidiadau allweddol i'r gofrestr risgiau a adolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 10 Tachwedd. Croesawodd y Pwyllgor gynnwys y Risg Diogelwch Gwybodaeth.<br><br>Nodwyd y byddai angen monitro'r capasiti Arweinyddiaeth yn unol â'r heriau cyfredol.<br><br>Gwnaed sylw y gallai risg godi yng nghyswllt myfyrwyr rhyngwladol os yw'r Llywodraeth yn penderfynu rhoi cyfyngiad ar niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol i leihau cyfanswm net y mewnfudwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| **22.40** | **Y Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiadau monitro Gorffennaf a Hydref 2022 ar dri phrosiect y Brifysgol a'r un Prosiect Dysgu Digidol cydweithredol gan y Rhwydwaith Addysgu a Dysgu dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.41** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **22.41.01 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor. Tynnwyd sylw at y gwaith a oedd yn parhau ynghylch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y Bwrdd fel rhan o'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i wella amrywiaeth y Bwrdd.<br><br>Bwriedir cyflwyno proses i adnabod aelod o'r Bwrdd i gymryd diddordeb arbennig yn natblygiad Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2030.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 26 Hydref wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | **VB/ LG** |
| | **22.41.02 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022.<br>(ii) Amcanion ychwanegol arfaethedig yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 yn ymwneud â'r Bwrdd Llywodraethwyr.<br>(iii) Mapio'r arferion yn erbyn Canllawiau'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ar Fynd i'r afael ag Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol.<br>(iv) Y ffurflen atebolrwydd am y dyletswydd atal eithafiaeth 'Prevent' i CCAUC.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at yr argymhelliad i gynnwys dau amcan ychwanegol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ynghylch datblygu mecanweithiau i gefnogi recriwtio a chadw aelodaeth amrywiol ar y Bwrdd Llywodraethwyr a chefnogi dymuniad y Bwrdd i gynyddu ei ffocws ar faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ehangach.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cynnwys y ddau amcan ychwanegol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 yn ymwneud â'r Bwrdd Llywodraethwyr.<br><br>NODI'R ffurflen atebolrwydd y dyletswydd Prevent i CCAUC.<br><br>NODI mapio'r arferion yn erbyn Canllawiau'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ar Fynd i'r afael ag Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 27 Hydref wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.41.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022.<br>(ii) Memorandwm Cytundeb drafft rhwng y Brifysgol a Glyndŵr Innovations Ltd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y Memorandwm Cytundeb arfaethedig rhwng y Brifysgol a Glyndŵr Innovations Ltd. Byddai'r Memorandwm yn cael ei rannu ag aelodau Bwrdd GIL yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Memorandwm Cytundeb rhwng y Brifysgol a Glyndŵr Innovations Ltd.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 9 Tachwedd wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.41.04 Y Pwyllgor Archwilio a Risg** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022.<br>(ii) Adroddiad Monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad Tachwedd 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor a thynnodd sylw at adolygiad y Pwyllgor o adroddiad monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi'r tri datganiad sicrwydd ansawdd i CCAUC.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o berfformiad yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol ac roedd y Pwyllgor yn argymell eu hailbenodi ar gyfer 2022/23.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022.<br><br>NODI adroddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad a chyngor y Pwyllgor ynghylch Datganiadau Sicrwydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC a CHYMERADWYO cadarnhau'r datganiadau i CCAUC.<br><br>CYMERADWYO penodi cwmni KMPG yn archwilwyr allanol y Brifysgol yn 2022/23.<br><br>CYMERADWYO penodi RSM yn archwilwyr mewnol y Brifysgol yn 2022/23.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 10 Tachwedd wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.41.05 Yr Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion:<br>(i) Cyfarfod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'r Cyfarfod Ariannol Cyffredinol ar 20 Hydref 2022.<br>(ii) Cyfarfod Blynyddol Glyndŵr Innovations Ltd ar 19 Hydref 2022.<br>(iii) Cyfarfod Blynyddol Glyndŵr Services Ltd ar 28 Hydref 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion a ddosbarthwyd ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

Diwedd